# Diffodd y Sêr

| | |
|---|---|
| **TRAETHYDD** | Nofel am Ellis Evans neu Hedd Wyn ydy *Diffodd y Sêr*. Mae'r nofel wedi'i lleoli yn ardal Trawsfynydd, Cwm Prysor a Ffrainc yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Anni, chwaer Ellis, sy'n adrodd y stori. |
| **ELLIS** | Faint o'r gloch ydy hi, Anni? |
| **ANNI** | Ym, tua 3 o'r gloch, rhyw ddydd Llun ym mis Ionawr 1917. |
| **ELLIS** | Am dri o'r gloch ar ddydd Llun / Yn syllu dros hen Benrhyn Llŷn ... |
| **ANNI** | Ti'n methu gweld Pen Llŷn o Drawsfynydd, Ellis. |
| **ELLIS** | Mae'n helpu'r odl, Anni. |
| | Mi welais i dderyn bach / Un coch â golwg blin / A chath yn eistedd wrth y glwyd / Yn llyfu ei ... |
| | Yn llyfu ei be, sgwn i? |
| **TRAETHYDD** | Barddoni ydy bywyd Ellis. Mae'n treulio'i nosweithiau'n barddoni, ac mae'n rhy flinedig i weithio ar ffarm ei deulu'r diwrnod wedyn. |
| **ELLIS** | Campwaith arall gan y bardd, Hedd Wyn. |
| **TRAETHYDD** | Doedd dim disgwyl i bob mab ffarm fynd i ryfel, ond penderfynodd Ellis enlistio er mwyn sicrhau na fyddai'n rhaid i'w frawd, Bob, fynd. |
| **ELLIS** | Dwi 'di dod i enlistio. Falle yn Ffrainc gwneith yr awen fy nharo. |
| **SARJANT** | Gei di dy daro'n iawn – gan bayonet, gwn, canon, glaw, fi ... |
| **TRAETHYDD** | Daeth Ellis yn ail yng nghystadleuaeth y Gadair yn Steddfod Aberystwyth 1916, ac mae o ar dân eisiau ennill yn Steddfod Penbedw 1917. Rhaid iddo sgwennu awdl dan y testun 'Yr Arwr'. Ond be yn union ydy awdl? |
| **MAGGIE** | Cerdd hir, hir, anodd i'w deall yw awdl. |
| **TRAETHYDD** | Mae agwedd Ellis tuag at y rhyfel yn newid ar ôl galw ar |


© Copyright 2015

Ifor, tad Lora, sydd newydd dychwelyd o’r Somme.

| | |
|---|---|
| **CEFNDIR** | SŴN GYNNAU A CHANONAU’N TANIO |
| **TRAETHYDD** | Roedd brwydr coedwig Mametz yn un waedlyd iawn, a bu farw pedair mil o Gymry. Anafwyd ffrind gorau Ifor, Gruff Wmffre, a bu’n rhaid i Ifor adael Gruff ar faes y gad. Cafodd Ifor anaf difrifol hefyd. |
| **ELLIS** | Ydy mynd i ryfel yn beryg? |
| **IFOR** | *mwmial* |
| **ELLIS** | Sori, allwch chi ddeud hynna eto? |
| **TRAETHYDD** | Mae ’di malu hanner ei wyneb yn Mametz! ’Sdim rhyfedd fod o’n methu siarad, Ellis.<br><br>Wrth i Ellis baratoi i fynd i hyfforddi i Litherland ger Lerpwl, mae bachgen newydd o’r enw Hywel yn cyrraedd y pentre’, a chyn pen dim, mae Hywel a Lora, merch Ifor, yn syrthio mewn cariad. |
| **LORA** | Pam na chaf i briodi Hywel, Tada? Dwi’n bedair ar ddeg ac mae o’n bymtheg. Ydan ni’n rhy ifanc?<br><br>’Dan ni ddim yn rhy ifanc! Felly ga’ i briodi?<br><br>Pam felly?<br><br>‘Dwyt ti ddim yn cael priodi achos dwi’n teimlo euog am adael Gruff Wmffre, tad Hywel, ar faes y gad.’<br><br>Grêt! |
| **TRAETHYDD** | Y noson cyn gadael am Litherland, mae Ellis ac Anni’n syllu ar y sêr. |
| **ELLIS** | Edrycha i’r sêr i gofio amdana i. Fedar neb ddiffodd y sêr, neb. |
| **ANNI** | Diffodd y sêr? Enw da am nofel. |
| **TRAETHYDD** | Mae Ellis yn dychwelyd am bythefnos ym mis Mehefin i helpu efo’r aredig. Mae o hefyd yn trio gorffen yr awdl ac yn caru efo Jini Owen. Dyn prysur iawn! |
| **ELLIS** | O, Jini! |

 © Copyright 2015

| | |
|---|---|
| **TRAETHYDD** | Mae Ellis dal wrthi'n sgwennu yn Ffrainc. |
| **ELLIS** | Hei hogia, be sy'n odli efo hafau? |
| **MILWR** | Canon! |
| **CEFNDIR** | CANONAU'N TANIO |
| **ELLIS** | Naci … |
| **MILWR** | Almaenwyr ! |
| **CEFNDIR** | GYNNAU'N TANIO |
| **ELLIS** | Naci! |
| **MILWR** | Bomiau! |
| **CEFNDIR** | BOMIAU'N FFRWYDRO |
| **ELLIS** | O, ie! Bom … |
| **TRAETHYDD** | Mae Ellis yn gorffen yr awdl ac yn ei phostio hi i'r Eisteddfod. Ddiwedd Gorffennaf 1917 daw newyddion am y trydydd cyrch i gipio Passchendaele yn Ypres. Yn dilyn y cyrch, mae sawl teulu lleol yn derbyn llythyron gan eu meibion, ond does dim llythyr gan Ellis. |
| **ANNI** | Falle a'th o ar goll yn y post. |
| **TRAETHYDD** | Ma' llawenydd mawr pan ddaw Jini â phennill pen-blwydd<br>gan Ellis. |
| **ANNI** | Ond ma' hwn wedi'i ddyddio CYN y frwydr! |
| **TRAETHYDD** | Funudau wedyn, maen nhw'n derbyn telegram yn dweud am farwolaeth Ellis. Y noson honno, mae Anni'n mynd i syllu ar y sêr. |
| **TRAETHYDD** | Fis yn ddiweddarach, enillodd awdl Ellis Gadair Eisteddfod Penbedw. Pan glywodd y trefnwyr fod yr enillydd wedi marw, cafodd lliain ei gosod drosti. Ar ôl hynny, galwyd Hedd Wyn yn Fardd y Gadair Ddu. Mae'r nofel yn gorffen ar nodyn ysgafn ym mhriodas Lora a Hywel ym mis Medi 1918. |
| **ELLIS** | O'n i yn y briodas hefyd. |
| **TRAETHYDD** | Y … Gest ti dy ladd. |


© Copyright 2015

| | |
|---|---|
| **ELLIS** | Gwir. Ond rhoddodd Mam un o ’mhenillion yn anrheg priodas i’r pâr. Ti’n gweld, er ’mod i ’di marw, bydd fy marddoniaeth yn parhau nes diffoddith y sêr. |
| **TRAETHYDD** | Gei di fynd rŵan, Ellis. Ti’n codi’r creeps arna i. Gas gen i ysbrydion! |


© Copyright 2015